

Polisi Preifatrwydd Arolwg Cartrefi Gwag

Pwy fydd yn rheoli fy nata ar ôl i mi ei gyflwyno?

Cyngor Bro Morgannwg

Pam mae angen fy ngwybodaeth arnoch?

Byddwn yn casglu a defnyddio eich gwybodaeth i:

- Benu pam bod eiddo'n gwag a dod o hyd i ddatrysiadau i helpu i gynnig cymorth perthnasol
- Ein helpu i ganfod statws perchnogaeth
- Gwneud ymholiadau fel y gallwn annog ailddefnydd o dai gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau, gan gynnwys benthyciadau tai, ac adolygu'r sefyllfa.

Byddwn yn gofyn am y wybodaeth ganlynol:

Enw, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn i hwyluso cymorth/cyfathrebu. Gwybodaeth am gyflwr eich eiddo a'ch cynlluniau ar gyfer eich eiddo.

Beth sy'n caniatáu i chi ddefnyddio fy ngwybodaeth?

Pan fyddwn yn casglu a defnyddio eich gwybodaeth bersonol ar gyfer ein gwaith monitro cartrefi gwag, rydym yn gwneud hynny fel rhan o'n dyletswyddau cyhoeddus fel awdurdod lleol er mwyn cymryd camau i nodi a dechrau ailddefnyddio anheddau gwag. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor ar y benthyciadau tai sydd ar gael, rhoi gwybodaeth am TAW is ar gyfer gwaith adnewyddu ar eiddo sy'n wag yn yr hirdymor a phrynu a phrydlesu cartrefi gwag dan berchnogaeth breifat hirdymor. Mae'r ddeddfwriaeth, y polisiau a'r canllawiau sy'n ein galluogi i wneud hyn yn cynnwys, heb fod yn gyfyngedig i, Adran 85 Deddf Llywodraeth Leol 2003.

Dan rai amgylchiadau lle mae tŷ gwag yn cael effaith negyddol ar yr ardal, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd gyhoeddus i ofyn am welliannau. Bydd eich data'n cael ei geisio a'i ddefnyddio fel rhan o'r broses hon i geisio gwarant ar gyfer archwilio, a gellid ystyried camau gorfodi, e.e. pryniant gorfodol o eiddo.

Gyda phwy bydd fy ngwybodaeth yn cael ei rhannu?

Bydd y wybodaeth a rowch i ni yn cael ei phrosesu gan Swyddog Cartrefi Gwag y Cyngor a'i rhannu â Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir y Cyngor.

Gallai eich data hefyd gael ei rannu ag asiantaethau lleol neu genedlaethol eraill i atal trosedd, diogelu'r cyhoedd rhag niwed neu dwyll a gwarchod arian cyhoeddus.

Oes rhaid i mi roi'r wybodaeth hon a beth fydd yn digwydd os na wnaf hynny?

Na, does dim rhaid i chi.

Am ba hyd y byddwch yn cadw'r data hwn a pham?

Am fanylion pellach mewn perthynas â hawliau unigolion, defnyddio data ac i weld Amserlen Dargadw Corfforaethol y Cyngor, ewch i'r ddolen yma:

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Website-privacy-notice.aspx

Sut caiff fy ngwybodaeth ei storio?

Mae eich gwybodaeth yn cael ei storio'n ddiogel ar systemau ar rwydwaith TG Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir y Cyngor. Mae unrhyw ddogfennau papur yn cael eu cadw mewn lleoliadau â mynediad cyfyngedig.

Pa hawliau sydd gennyf o ran fy nata?

Dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl i ofyn am fynediad i'r wybodaeth rydym yn ei chadw amdanoch chi.

Dan amgylchiadau penodol, dan ddeddfwriaeth diogelu data, gallwch hefyd:

- wrthwynebu prosesu data personol sy'n debygol o achosi, neu sydd yn achosi, difrod neu ofid
- gofyn i ddata personol anghywir gael ei gywiro, blocio, dileu neu ddinistrio
- atal prosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol
- gwrthwynebu penderfyniadau sy'n cael eu gwneud drwy ddulliau awtomataidd

Dylai ceisiadau am wybodaeth i'r Cyngor hwn gael eu gwneud i:

Yr Uned Rhyddid Gwybodaeth
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri
CF63 4RU

Diogelu data a'ch hawliau

I bwy y galla i gwyno os ydw i'n anfodlon â'r ffordd mae fy nata'n cael ei ddefnyddio?

Gallwch gwyno'n uniongyrchol i dîm Diogelu Data'r Cyngor drwy e-bost neu'r post.

E-bost dpo@valeofgamorgan.gov.uk

Drwy'r post:
Swyddog Diogelu Data
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri

CF63 4RU

Gallwch hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru

Ail Lawr, Tŷ Churchill

Ffordd Churchill,

Caerdydd

CF10 2HH

029 20678400

wales@ico.org.uk

A fydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i wneud penderfyniadau awtomataidd amdanaf i?

Na fydd